CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2020/2021

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Dafydd Rhys Thomas
**Parti:** Y Grŵp Annibynnol **Ward:** Ynys Gybi

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Presenoldeb |
| Pwyllgor Gwaith | |
| Pwyllgor Safonau | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Cydbwyllgor Cymru | Cydbwyllgor Cymru |
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Morswyn, Caergybi | |
| - Llywodraethwr / Ysgol Cybi | Ysgol Cybi |
| - Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd | Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwy’n aelod o’r Pwyllgor Gwaith a Deilydd y Portffolio Busnes Corfforaethol ac mae rhai o’m cyfrifoldebau’n ymwneud â materion cyfreithiol, y cyfansoddiad, TG, cyfathrebu, Adnoddau Dynol, trawsnewid a moderneiddio.

Mae’n her ac yn fraint bod yn rhan o’r broses gwneud penderfyniadau a llunio polisïau ar ran Cyngor Sir Ynys Môn.

Wrth edrych yn ôl mae’r pandemig Covid wedi cyffwrdd ein bywydau ni i gyd a newid y ffordd yr ydym ni fel cynghorwyr yn gweithio. Yn sicr mae wedi bod yn her ac mae pob un ohonom wedi gorfod addasu i’r newid yn gyflym ac mae’n bwysig ein bod ni’n dysgu gwersi o’r cyfnod anodd hwn.

Rwy’n hynod ddiolchgar i HOLL dimau Cyngor Sir Ynys Môn am eu gwaith caled a’u hymroddiad i’n cadw ni’n ddiogel a darparu gwasanaethau yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn ogystal â bod yn aelod o Gyngor Sir Ynys Môn rwyf hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned Trearddur ac rwyf wedi mynychu pob cyfarfod misol. Er nad wyf yn aelod o Gyngor Cymuned Rhoscolyn rwyf wedi mynychu eu cyfarfodydd yn rheolaidd fel gwestai. Rwy’n cynrychioli’r Cyngor Sir ar gyrff llywodraethol Ysgol Gybi ac Ysgol Gymraeg Morswyn. Roeddwn yn aelod o grŵp rhanddeiliaid Horizon Wylfa Newydd ac yn mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd. Yn anffodus mae’r grŵp wedi ei ddiddymu erbyn hyn.

## 3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Mae gen i ddiddordeb brwd ym mhob agwedd ar fywyd yn fy etholaeth ac rwyf bob amser yn barod i gwrdd yn ffurfiol neu’n anffurfiol gydag etholwyr i drafod problemau megis sbwriel, gwastraff, baw ci, materion cynllunio a phriffyrdd, llifogydd, hawliau tramwy ac amwynderau ayb ac rwyf bob amser ar gael dros y ffôn, ebost neu wyneb yn wyneb. Rwy’n ceisio delio gyda’r materion hyn fy hyn neu’n cyfeirio problemau i’r adrannau perthnasol ar ran yr etholwyr ac rwyf yn ddiolchgar iawn i Swyddogion y Cyngor am eu help a’u gefnogaeth i fynd i’r afael â phroblemau a’u datrys.

Rwy’n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd glanhau cymunedol ac yn cymeradwyo’r ysbryd cymunedol yn enwedig y gwaith i wella’r pentref, torri llystyfiant, codi sbwriel a phlannu planhigion ayb. Dyma ffordd ragorol o ddod â’r gymuned at ei gilydd i gyflawni rhywbeth positif.

Rwy’n ddiolchgar iawn o gael fy ail-ethol i gynrychioli ward Cybi ym Mai 2017. Mae’n fraint aruthrol i mi gael cynrychioli’r ardal arbennig hon ac rwy’n gwneud fy ngorau glas i gynrychioli’r holl ardal o Roscolyn i Fynydd Tŵr yn cynnwys ardaloedd trefol Kingsland, Maeshyfryd a Threseifion.

Mae gan yr ardal ddaearyddiaeth amrywiol a rhai ardaloedd llewyrchus ond yr wyf hefyd yn cynrychioli rhai o’r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Ar ôl cael fy ethol roeddwn yn ddigon ffodus o gael swydd ar y cabinet gyda chyfrifoldeb dros faterion Corfforaethol a rhoddodd hyn gyfle i mi ddysgu am ba mor gymhleth  ydi'r Cyngor a sut mae'r broses ddemocrataidd yn gweithio.

Rydym ni fel Cyngor yn wynebu heriau mawr ym mhob maes ond yn enwedig yn faes Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Plant ac Oedolion ac Addysg ac rydym yn ymdrechu i wella safonau addysg a diwygio a chyflwyno ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif.

Mae llawer o heriau eraill yn sgil y caledi mwyaf o fewn cof.

Wrth gwrs, mae gen i ddiddordeb mawr yn natblygiad economaidd Ynys Môn ac Ynys Gybi.

Rwy'n cydnabod pwysigrwydd twristiaeth i'r economi a materion megis y peilonau Grid Cenedlaethol, Orthios a'r datblygiadau ar safle Alwminiwm Môn, porthladd Caergybi, Bluestone a'r datblygiad Morlais ar y tir ac ar y môr. Safle Wylfa.

Mae gennym ni dirlun a morlun unigryw iawn yma ar Ynys Gybi ac yn wir  ledled Ynys Môn ac rwyf yn awyddus i amddiffyn a gwella ein hamgylchedd.

Rwyf wedi gweithio gyda Syrffwyr yn Erbyn Carthffosiaeth, y Cyngor a'r gymuned i hyrwyddo lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu plastig. Rwy'n falch iawn mai Cyngor Ynys Môn oedd yr Awdurdod cyntaf yn y DU i ennill statws di-blastig. Wrth gwrs mae llawer o waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn ac i wella ein cyfraddau ailgylchu gwastraff.

Yr her fwyaf i ni gyd yw'r newid hinsawdd ac fe wnaf fy ngorau glas fel unigolyn ac fel Cynghorydd Sir i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud popeth posibl fel awdurdod i ddod yn fwy gwyrdd ac i amddiffyn ein hamgylchedd hynod werthfawr.

## 4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

## 5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Fel rhywun sydd yn derbyn triniaeth canser rwyf yn aelod newydd o Fforwm Canser Goledd Cymru sydd yn canolbwyntio ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Rwyf hefyd yn aelod o banel codi arian Elusen Uned Alaw.

Rwy'n gweithio gyda meddygon ymgynghorol a staff yn Ysbyty Gwynedd i wella profiad y claf a diogelu cleifion yn well yn benodol yn ymwneud â ffactorau dynol a diogelwch.

Rwyf hefyd wedi datblygu ap i helpu cleifion canser gyda'u symptomau. Mae'r ap wedi ei ariannu gan Tenovus a'r gobaith yw ei fabwysiadau'n genedlaethol.

Mae gennym ni dirlun a morlun unigryw iawn yma ar Ynys Gybi ac yn wir  ledled Ynys Môn ac rwyf yn awyddus i amddiffyn a gwella ein hamgylchedd.

Mae wedi bod yn fraint ac anrhydedd cael cynrychioli pobl ward Cybi. Rwyf wedi mwynhau'r 12 mis diwethaf yn arw ac edrychaf ymlaen gyda brwdfrydedd a gobaith tua'r dyfodol, er gwaetha'r heriau sydd o'n blaenau.

Hoffwn ddiolch hefyd i fy nghyd-Gynghorwyr, Swyddogion y Cyngor a gweithwyr Cyngor am eu cefnogaeth a'u cymorth, ac wrth gwrs fy nghyd-elodau ar Ynys Gybi, sef Trefor a John Arwel, ac i holl bobl Cybi am eu cefnogaeth barhaus a'u cyfeillgarwch. Pwysleisiaf fy mod bob amser ar gael i'ch cynghori neu'ch cynorthwyo mewn unrhyw  ffordd.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** | **Mehefin 2021** |